sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

# Gwahodd ceisiadau am drwyddedau radio cymunedol

Dyddiad Cyhoeddi: 11 Rhagfyr 2018

# Gair am y ddogfen hon

Ym mis Tachwedd 2017, yn dilyn ein Datganiad ynghylch 'Radio Cymunedol: polisi technegol a thrwyddedu yn y dyfodol' a gyhoeddwyd ar 28 Ebrill 2017, gwnaethom wahodd grwpiau i gyflwyno datganiadau o ddiddordeb mewn gwneud cais am drwydded radio cymunedol. Ym mis Mehefin 2018, fe wnaethom gyhoeddi datganiad byr yn dweud ein bod wedi penderfynu gwahodd ceisiadau am drwyddedau mewn rhai ardaloedd yn nes ymlaen eleni, ac ar 3 Medi 2018, fe wnaethom gyhoeddi'r rhestr o ardaloedd roeddem yn bwriadu gwahodd ceisiadau ar eu cyfer. Bydd unrhyw geisiadau am ardaloedd nad ydynt wedi'u cynnwys ar y rhestr y cyfeirir ati uchod yn cael eu gwrthod.

Mae'r ddogfen hon yn gwahodd ceisiadau am drwyddedau i ddarparu gwasanaethau radio cymunedol yn yr ardaloedd hynny.

Mae Ofcom yn gwahodd ceisiadau ar gyfer gwasanaethau a fydd yn gweithredu ar FM yn unig. Ni chaiff unrhyw ardaloedd eu heithrio ar sail argaeledd yr amleddau, ond nid yw hyn yn golygu y bydd amledd addas ar gael ym mhob ardal. Bydd Ofcom yn edrych ar argaeledd yr amleddau ar ôl i'r ceisiadau ddod i law. Ni all Ofcom warantu bod adnoddau amledd addas ar gael i ddiwallu anghenion unrhyw grŵp o ymgeiswyr. Gan ystyried hyn, dylai darpar weithredwyr radio cymunedol nodi mai nhw sy'n atebol am unrhyw risg sydd ynghlwm wrth eu cais. Ni fydd modd ad-dalu'r ffi ymgeisio o dan yr amgylchiadau hyn

Rydym yn egluro pwysigrwydd dewis safle trawsyrru priodol, yn darparu manylion y cyfyngiadau cyllido sy'n berthnasol i wasanaethau radio cymunedol, ac yn nodi sut byddwn ni'n asesu ceisiadau.

Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn ceisiadau ydy **3pm ddydd Mawrth 26 Mawrth 2019.**

# Cynnwys

## Adran


1. Cyflwyniad 1

2. Argaeledd amledd a threfniadau trawsyrru 2

3. Rheolau Cyllido 5

4. Asesu Ceisiadau 7

5. Canllawiau a gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno ceisiadau 8


## Atodiad


A1. Ardaloedd y gwahoddir ceisiadau ar eu cyfer 10

A2. Gwasanaethau radio masnachol ar raddfa fach 12

# 1. Cyflwyniad

1.1 Yn unol ag adran 104(1) Deddf Darlledu 1990 ("Deddf 1990") (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 fel yr addaswyd gan Orchymyn Radio Cymunedol 2004, fel y cafodd ei ddiwygio ei hun gan Orchmynion Radio Cymunedol (Diwygiad) 2010 a 2015), yn gwahodd ceisiadau am drwyddedau i ddarparu gwasanaethau radio cymunedol yn yr ardaloedd sydd wedi cael eu rhestru yn Atodiad 1 y gwahoddiad hwn i ymgeisio.

1.2 Rydyn ni'n gwahodd ceisiadau am drwyddedau i ddarparu gwasanaethau ar don FM (VHF), am gyfnod cychwynnol hiraf o bum mlynedd o ddechrau darlledu.

1.3 Ym mis Tachwedd 2017, yn dilyn ein Datganiad ynghylch 'Radio Cymunedol: polisi technegol a thrwyddedu yn y dyfodol' (a gyhoeddwyd ar 28 Ebrill 2017), gwnaethom wahodd grwpiau i gyflwyno datganiadau o ddiddordeb mewn gwneud cais am drwydded radio cymunedol. Ym mis Mehefin 2018, fe wnaethom gyhoeddi datganiad byr yn dweud ein bod wedi penderfynu gwahodd ceisiadau am drwyddedau mewn rhai ardaloedd yn nes ymlaen eleni, ac ar 3 Medi 2018, fe wnaethom gyhoeddi'r rhestr o ardaloedd roeddem yn bwriadu gwahodd ceisiadau ar eu cyfer.

1.4 Ni fyddwn yn derbyn ceisiadau mewn perthynas ag unrhyw ardaloedd neu ardaloedd lleol yn y Deyrnas Unedig sydd y tu allan i'r ardaloedd sydd wedi cael eu disgrifio yn Atodiad 1.

1.5 Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn ceisiadau fydd **3pm ddydd Mawrth 26 Mawrth 2019.** Bydd yn rhaid talu ffi o £600 na chaiff ei ad-dalu am bob cais a gyflwynir.

# 2. Argaeledd amledd a threfniadau trawsyrru

## Argaeledd amledd

2.1 Byddwn yn derbyn ceisiadau ar gyfer gwasanaethau sy’n cynnig gweithredu ar FM yn unig. Nid ydym yn eithrio unrhyw ardaloedd o'r broses ceisiadau ar sail argaeledd amledd fel rydym wedi’i wneud yn y gorffennol. Fodd bynnag, dylai'r ymgeiswyr nodi bod prinder amleddau FM addas mewn rhai ardaloedd, yn enwedig mewn ardaloedd trefol a maestrefol. Oherwydd hyn, bydd yr holl geisiadau’n cael eu hasesu yn gyntaf am argaeledd amledd cyn cynnal unrhyw ddadansoddiad pellach i sicrhau mai dim ond y ceisiadau hynny lle mae amledd addas ar gael fydd yn cael eu hystyried ar gyfer dyfarnu trwydded radio cymunedol. Mae hyn yn debyg o arwain at wrthod rhai ceisiadau cyn cynnal asesiad llawn yn erbyn y meini prawf statudol, ond bydd yn sicrhau mai dim ond y ceisiadau hynny y mae amledd addas ar gael ar eu cyfer fydd yn cael eu hystyried ymhellach yn erbyn y meini prawf statudol.

2.2 Efallai y bydd ar ymgeisydd eisiau canfod yn gyntaf pa mor debygol yw hi bod amledd FM addas ar gael yn eu hardal dan sylw, o’u safle trawsyrru penodol, cyn penderfynu a ydynt am gyflwyno cais ai peidio. Mae hi’n syniad da bod ymgeiswyr o’r fath yn ystyried gofyn am gyngor cynllunio amledd arbenigol. Yn benodol, dylid nodi nad yw cynnal sgan amledd byw mewn safle penodol (neu wrando am fan tawel ar y deial amledd) yn golygu cynllunio amledd priodol, ac nid yw hynny’n golygu bod amledd ar gael o safle. Mae hyn oherwydd nad yw sgan amledd o’r fath yn gwarantu bod modd cyflawni ardal darpariaeth yn wyneb ymyriant, ac nid yw’n ystyried a fyddai gwasanaeth yn achosi ymyriant yn rhywle arall i wasanaethau eraill sydd ar yr awyr. (Sylwch, os na fydd y safle trawsyrru dan sylw yn briodol ar gyfer yr ardal gwasanaeth arfaethedig, neu os nad oes amledd FM addas i gefnogi'r gwasanaeth, bydd y cais yn cael ei wrthod ac ni fyddwn yn mynd â'r cais yn ei flaen i’w ystyried yn erbyn y meini prawf dethol sydd wedi’u nodi yn y ddeddfwriaeth. **Ni fydd modd ad-dalu'r ffi ymgeisio o dan yr amgylchiadau hyn**. Edrychwch ar baragraff 2.7 hefyd.)

## Trefniadau trawsyrru

2.3 Ar y ffurflen gais (adran 25) rydyn ni’n gofyn i’r ymgeiswyr ddarparu manylion o’r safle trawsyrru maen nhw’n bwriadu ei ddefnyddio, ac (yn adran 3) disgrifiad o'r ardal ddaearyddol y bwriedir ei gwasanaethu o’r safle hwn. Ein polisi arferol ydy trwyddedu gwasanaethau radio cymunedol drwy ddefnyddio dim ond un safle trawsyrru; dylai pob cais felly fod yn seiliedig ar ddefnyddio un safle yn unig. Ni ystyrir unrhyw wybodaeth am safleoedd trawsyrru eraill ar hyn o bryd.

2.4 Ar ôl derbyn cais, byddwn ni’n defnyddio’r safle trawsyrru arfaethedig i wirio a oes amledd addas ar gael, ac a oes modd gwasanaethu'r ardal gwasanaeth arfaethedig yn ddigonol o’r safle dan sylw. **Dylai ymgeiswyr felly nodi pwysigrwydd dod o hyd i safle trawsyrru sy’n addas i’r ardal maent yn dymuno ei gwasanaethu (edrychwch ar y canllawiau ar ddewis safle trawsyrru ym mharagraff 2.11 isod).**

2.5 Byddwn yn defnyddio ein meini prawf cynllunio radio cymunedol safonol i ganfod a fydd safle arfaethedig yn gallu darparu’r ddarpariaeth ofynnol. Drwy ddefnyddio lefel pŵer o 25 watt erp (y plân), byddwn yn edrych i weld a fydd modd cyflawni gwasanaeth o oddeutu radiws o 5km ar 54 dB microV/m o’r safle trawsyrru a nodir yn y cais, ac mai dyma’r ardal mae’r ymgeisydd wedi’i disgrifio yn adran 3 y cais fel ardal ddarpariaeth arfaethedig y gwasanaeth. (Sylwch nad yw hyn o

reidrwydd yn golygu, pe bai trwydded yn cael ei dyfarnu, y byddai'r pŵer wedi'i gyfyngu i 25 watt i bob plân a radiws o 5km, ond dyma'r pŵer a ddefnyddir ar gyfer asesiad darpariaeth gychwynnol yn gyffredinol.)

2.6 Os byddwn yn dod i'r casgliad bod safle trawsyrru ymgeisydd yn addas ar gyfer darparu'r ddarpariaeth arfaethedig, byddwn wedyn yn penderfynu a oes amledd FM ar gael ar gyfer yr ardal gwasanaeth arfaethedig o'r safle hwnnw. Bydd ein gwaith cynllunio amledd yn seiliedig ar ddulliau gweithredu y cytunwyd arnynt yn rhyngwladol ar gyfer cynllunio amleddau. I gael rhagor o fanylion, edrychwch ar bolisi darpariaeth radio analog Ofcom, sydd ar gael ar ein gwefan.

2.7 Rydyn ni'n disgwyl ei bod hi'n debyg y bydd rhai ceisiadau'n cael eu gwrthod ar y cam hwn o'r broses. Mewn geiriau eraill, os na fydd y safle trawsyrru dan sylw yn briodol ar gyfer yr ardal gwasanaeth arfaethedig, neu os nad oes amledd FM addas i gefnogi'r gwasanaeth, bydd y cais yn cael ei wrthod ac ni fyddwn yn mynd â'r cais yn ei flaen i'w ystyried yn erbyn y meini prawf dethol sydd wedi'u nodi yn y ddeddfwriaeth. **Ni chaiff y ffi ymgeisio ei had-dalu o dan yr amgylchiadau hyn**, felly rydyn ni'n argymell yn gryf bod ymgeiswyr yn gofyn am gyngor arbenigol ar gynllunio amledd a'u bod yn arbennig o ofalus wrth ddewis eu safle trawsyrru.

2.8 Fel arfer bydd Ofcom yn dyfarnu radiws darpariaeth o oddeutu 5km ar gyfer gorsaf gymunedol a phŵer pelydru effeithiol (e.r.p.) o 25 watt yn y plân fertigol. Gall hyn fel rheol gael ei ategu gan 25 watt ychwanegol yn y plân llorweddol, os bydd angen hynny ar yr ymgeisydd a bod yr amgylchiadau lleol yn ei ganiatáu. Byddwn yn ystyried ceisiadau ar gyfer ardaloedd ehangach lle gall ymgeiswyr ddangos y bydd yr ardal ddarlledu arfaethedig yn rhoi gwell gwasanaeth i'r gymuned darged; a lle mae cwmpas ehangach yn bosibl yn dechnegol. Byddem yn cynghori ymgeiswyr i fod yn realistig wrth ddatgan eu huchelgais o ran darlledu. Os byddwch yn gofyn am ardal ddarlledu rhy eang sy'n ymestyn y tu hwnt i'ch cynulleidfa darged neu fod hynny'n dechnegol amhosibl, mae risg y bydd rhaid i Ofcom wrthod y cais os na all safle'r trosglwyddydd arfaethedig wireddu'r uchelgais o ran darlledu, er enghraifft.

2.9 Ni fyddwn yn gallu gohebu ynghylch trefniadau trawsyrru. Yr unig eithriad i hyn yw os bydd angen i ni ofyn am eglurhad gennych chi am eich trefniadau trawsyrru. Fodd bynnag, os byddwn yn gwrthod cais, byddwn yn rhoi adborth i bob ymgeisydd ynghylch ein penderfyniad, gan gynnwys map darpariaeth a ragwelir ac asesiad o argaeledd amledd (o'r astudiaeth cynllunio amledd), os yw hynny'n briodol.

2.10 Dylai fod yn glir o'r uchod bod dewis safle trawsyrru yn eithriadol o bwysig. Ar ben hynny, dyfernir trwydded ar sail y safle trosglwyddo a fydd wedi'i gynnwys yn y cais (ac y seilir yr asesiad o addasrwydd darpariaeth ac argaeledd amledd arno). Felly, mae'n annhebyg y bydd Ofcom yn cytuno ar unrhyw gais i newid safle trawsyrru ar ôl dyfarnu trwydded, oni bai ei fod yn newid o ganlyniad i amgylchiadau sydd y tu hwnt i reolaeth y darpar drwyddedai.

2.11 Dylai ymgeiswyr nodi bod **prinder amleddau FM addas mewn rhai ardaloedd, yn enwedig mewn ardaloedd trefol a maestrefol. Ni all Ofcom warantu bod adnoddau amledd addas ar gael i ddiwallu anghenion unrhyw grŵp o ymgeiswyr. Gan ystyried hyn, dylai darpar weithredwyr radio cymunedol nodi mai nhw sy'n atebol am unrhyw risg sydd ynghlwm wrth eu cais**.

## Canllawiau ar ddewis safle trawsyrru FM

2.12 Rydyn ni'n cynghori ymgeiswyr i ofyn am gyngor technegol proffesiynol ar faterion trawsyrru, gan gynnwys ynghylch lle i leoli'r trawsyrrydd. Fodd bynnag, dyma rai pwyntiau cyffredinol y bydd angen i chi eu hystyried ar gyfer trawsyryddion FM:

- 'Gorau po uchaf'; fel rheol gyffredinol, yr uchaf ydy trawsyrrydd mewn perthynas â'r ardal darpariaeth a geisir, y gorau fydd y ddarpariaeth debygol (os oes adeiladau talach yn amgylchynu eich antena, bydd hyn yn effeithio'n andwyol ar ddarpariaeth).
- Yn syml mae darpariaeth FM fel rheol yn ôl 'llinell weledìad' - Beth rydych chi'n ei weld o lle mae'r antena'n cael ei gynllunio ydy beth rydych chi'n debyg o'i gyrraedd (er bod ymyriant a ffactorau eraill yn gallu effeithio ar y signal hefyd).
- Ydy'r safle yn ddiogel? Fyddai mynediad yn anodd?
- A fydd yn gost-effeithiol ac yn fforddiadwy dros oes y drwydded? A oes angen caniatâd cynllunio? Mae adeiladau rhestredig yn gallu achosi problemau penodol.
- Beth fyddai ei angen er mwyn cysylltu'r trawsyrrydd â safle'r stiwdio?
- A oes goblygiadau o ran iechyd a diogelwch?
- A oes cyflenwad trydan ar gael?
- Pa mor hawdd fyddai gosod yr antena a'r offer neu a fyddai goblygiadau o ran cost?
- A oes defnyddwyr neu drigolion lleol eraill i'w hystyried?

# 3. Rheolau cyllido

## Y cyfyngiadau ar incwm o refeniw masnachol ar yr awyr

3.1 Ym mis Mawrth 2015 roedd Gorchymyn Radio Cymunedol (Diwygio) 2015 wedi newid y rheolau cyllido ar gyfer gwasanaethau radio cymunedol. Yn gryno:

- mae pob gorsaf yn cael 'lwfans refeniw sefydlog' o £15,000 y flwyddyn ariannol sy'n cael ei dalu o nawdd a hysbysebu ar yr awyr;
- ar ben hynny, caniateir hefyd i rai gorsafoedd gael hyd at 50% o gyfanswm eu hincwm perthnasol y flwyddyn ariannol (h.y. heb ystyried y 'lwfans refeniw sefydlog') o nawdd a hysbysebu ar yr awyr y telir amdano.

3.2 Wrth benderfynu i bwy (ac ar ba delerau) y dylid dyfarnu trwydded radio cymunedol, rhaid i Ofcom ystyried nifer o faterion a nodir mewn deddfwriaeth, gan gynnwys yr angen i sicrhau na fydd unrhyw wasanaeth a ddarperir o dan y drwydded honno yn rhagfarnu'n ormodol ar hyfywedd economaidd unrhyw wasanaeth lleol arall[1] (drwy rinwedd adran 105 o Ddeddf 1990, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Radio Cymunedol 2004 ac fel y'i diwygiwyd ymhellach gan Orchmynion Radio Cymunedol (Diwygiad) 2010 a 2015).

3.3 Heb ragfarnu cyffredinolrwydd y gofyniad effaith economaidd hwn, rhaid i Ofcom osod amodau mewn trwyddedau radio cymunedol i sicrhau'r gofynion statudol canlynol:

- caiff pob gorsaf radio cymunedol gael hyd at £15,000 y flwyddyn ariannol drwy werthu nawdd a hysbysebu ar yr awyr. Y 'lwfans refeniw sefydlog' ydy'r enw ar hyn;
- ni chaiff gorsaf radio cymunedol y mae ei darpariaeth yn gorgyffwrdd â darpariaeth gwasanaeth radio masnachol lleol bach (sy'n cael ei ddiffinio fel un y mae ei phoblogaeth MCA[2] yn 150,000 o oedolion (dros 15 oed) neu lai) gael unrhyw incwm drwy werthu nawdd a hysbysebu ar yr awyr sy'n uwch na'r lwfans refeniw sefydlog. Fodd bynnag, os bydd Fformat y gwasanaeth radio masnachol lleol bach yn caniatáu iddo ddarparu ei raglenni lleol o leoliad y tu allan i'w ardal drwyddedig ei hun, nid yw'r cyfyngiad hwn yn berthnasol (a'r gofynion perthnasol ydy'r rheini sydd wedi'u nodi isod);
- caiff gorsaf radio cymunedol y mae ei darpariaeth – (i) yn gorgyffwrdd â darpariaeth unrhyw wasanaeth radio masnachol lleol arall (sy'n cael eu diffinio fel y rheini sydd â phoblogaeth dalgylch mesuradwy o 150,000 o oedolion neu ragor); (ii) nad yw'n gorgyffwrdd â gwasanaeth radio masnachol lleol o gwbl; neu (iii) yn gorgyffwrdd â gwasanaeth radio masnachol lleol bach y mae ei Fformat yn caniatáu iddo ddarparu ei raglenni lleol o leoliad y tu allan i'w ardal drwyddedig – gael hyd at 50% o'i incwm sydd dros y lwfans refeniw sefydlog o werthu nawdd a hysbysebu ar yr awyr.

3.4 Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae nawdd ar gyfer rhaglenni yn cynnwys nawdd i orsaf neu i sianel, a chyfathrebiadau masnachol.

---

[1] At ddibenion yr asesiad hwn o'r effaith economaidd, mae'r cysyniad hwn yn cyfeirio at wasanaethau lleol ar wahân i wasanaethau radio cymunedol.

[2] Dalgylch Mesuradwy – yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan wasanaeth radio masnachol, fel sy'n cael ei diffinio gan yr ardal lle mae signalau o gryfder penodol yn cael eu derbyn.

3.5 Mae manylion y gwasanaethau radio masnachol lleol yn y DU ag ardal ddarlledu fesuradwy – sy'n cynnwys 150,000 o oedolion (15 oed a hŷn) neu lai, ac nad yw eu trwyddedau wedi cael eu hamrywio ar unrhyw adeg yn unol ag adran 106(1A)(e) BA 1990 (h.y. nid yw eu Fformat yn cynnwys cytundeb ar gyfer stiwdios sy'n rhannu lleoliad) – wedi'u cynnwys yn Atodiad 2. Gallwch weld a yw'r ardal rydych chi am ddarlledu ynddi yn dod o dan Ardal Darpariaeth Fesuradwy unrhyw un o'r gwasanaethau hyn drwy edrych ar y mapiau darpariaeth radio masnachol ar ein gwefan.

3.6 Dylai'r ymgeiswyr hefyd nodi'r rhwymedigaeth ar Ofcom i gynnwys amodau mewn trwyddedau radio cymunedol bod cyfyngu ar nawdd a hysbysebu ar yr awyr y telir amdano o raglenni i ddim ond lwfans refeniw sefydlog mewn rhai amgylchiadau yn rhwymedigaeth sy'n parhau. Os bydd yr amgylchiadau mewn perthynas â gwasanaeth radio cymunedol penodol yn newid (fel maint y boblogaeth mewn dalgylch mesuradwy gorsaf radio masnachol sy'n gorgyffwrdd), efallai y bydd angen newid yr amodau cyllido perthnasol yn y trwyddedau radio cymunedol perthnasol.

3.7 Ar hyn o bryd nid oes bwriad i lansio unrhyw wasanaethau radio masnachol lleol newydd ar raddfa fach yn yr ardaloedd a nodir yn Atodiad 1. Serch hynny, mae Ofcom yn cadw'r hawl i hysbysebu trwyddedau am wasanaethau o'r fath yn y dyfodol, os byddwn yn credu ei bod hi'n briodol gwneud hynny (a dylai ymgeiswyr nodi y bydd unrhyw drwyddedau radio cymunedol a ddyfernir o ganlyniad i'r rownd hon o geisiadau am drwydded yn cael eu dyfarnu ar y sail y gallai fod angen newid amodau sy'n ymwneud â chyfyngiadau cyllido yn y dyfodol).

3.8 Mae'r cyfyngiadau hyn yn ychwanegol at reolau eraill sy'n berthnasol i wasanaethau radio cymunedol. Mae rhagor o wybodaeth yn y nodiadau cyfarwyddyd, a'r datganiad o wybodaeth gyffredinol y mae Ofcom wedi'u cynhyrchu ar gyfer ymgeiswyr (edrychwch ar adran 5 y ddogfen hon).

# 4. Asesu ceisiadau

4.1 Bydd asesu cais am drwydded radio cymunedol yn seiliedig yn bennaf ar y cynigion a gyflwynir yn y cais a fydd wedi'i lenwi. Wrth asesu cais, gall Ofcom ofyn am esboniad a/neu gynyddu cynigion gan ymgeisydd.

4.2 Ein hamcan ydy ystyried pob cais cyn pen chwe mis iddo gael ei gyflwyno, er bod hyn yn amodol ar nifer y ceisiadau a gyflwynir, ymysg pethau eraill.

4.3 Fel y manylir yn adran 2, byddwn yn archwilio i weld a oes modd cyflawni'r ddarpariaeth mae ymgeisydd yn ei cheisio o'i safle trawsyrru arfaethedig, ac a oes amledd FM addas ar gael. Os nad yw'r safle yn briodol ar gyfer yr ardal gwasanaeth arfaethedig neu os nad oes amledd FM addas i gynnal y gwasanaeth, bydd y cais yn cael ei wrthod ar y cam hwn.

4.4 Byddwn wedyn yn asesu'r ceisiadau hynny y mae amledd a safle trawsyrru addas ar gael ar eu cyfer. Wrth benderfynu ar yr ymgeisydd mwyaf addas i ddyfarnu trwydded radio cymunedol, mae'n rhaid i Ofcom ystyried y gofynion arbennig sydd wedi'u nodi yn Adran 105(1) o Ddeddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a'i haddasu gan Orchymyn Radio Cymunedol 2004). Caiff y saith maen prawf dethol hyn eu manylu yn ein 'Nodiadau cyfarwyddyd ar gyfer ymgeiswyr am drwyddedau radio cymunedol a thrwyddedigion'.

4.5 Wedyn bydd yr holl geisiadau yn cael eu hasesu mewn perthynas â'r meini prawf dethol yn Adran 105(1), yn ogystal â nodweddion radio cymunedol y gwasanaeth a gofynion statudol eraill. Mae'r rhain i gyd wedi cael eu cynnwys yn ein 'Nodiadau cyfarwyddyd ar gyfer ymgeiswyr am drwyddedau radio cymunedol a thrwyddedigion'.

4.6 Dylai ymgeiswyr nodi, ar ôl ymgynghoriad Ofcom: 'Adolygiad o brif ymrwymiadau radio cymunedol', ein bod wedi penderfynu symleiddio Prif Ymrwymiadau radio cymunedol. O ganlyniad, cafodd yr adran ddrafft ar y prif ymrwymiadau yn y ffurflen gais ei diwygio ym mis Mawrth 2016 i adlewyrchu hyn.

4.7 Efallai y byddai hefyd yn ddefnyddiol i'r ymgeiswyr ddarllen y ddogfen Saesneg '10 years of community radio licensing: Advice for licence applicants'.

# 5. Canllawiau a gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno ceisiadau

5.1 Mae'r ffurflen gais a dogfennau perthnasol eraill i ymgeiswyr i'w gweld ar wefan Ofcom: https://www.ofcom.org.uk/cymru/manage-your-licence/radio-broadcast-licensing/apply-for-a-radio-broadcast-licence. Mae'n cynnwys:

- ffurflen gais (gwnewch yn siŵr eich bod yn llenwi ac yn cyflwyno copi diweddar o'r ffurflen, h.y. cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018);
- 'Nodiadau cyfarwyddyd ar gyfer ymgeiswyr am drwyddedau radio cymunedol a thrwyddedigion' (cyhoeddwyd fersiwn wedi'i ddiweddaru ym mis Mai 2017).

5.2 Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, cysylltwch â ni dros yr e-bost ar cr.applications@ofcom.org.uk, neu drwy'r post: Broadcast Licensing, Ofcom, Riverside House, 2a Southwark Bridge Road, London SE1 9HA.

5.3 Nid oes angen cyflwyno copi papur o'r ddogfen (er os bydd unrhyw un o'r dogfennau ategol a ganiateir ond ar gael ar ffurf copi papur, dylid anfon y rhain i'r cyfeiriad a nodir yn 5.2 uchod). Dylid cyflwyno'r ffurflen gais lawn dros yr e-bost, naill ai mewn fformat Word (.doc) neu RTF, i cr.applications@ofcom.org.uk.

5.4 Rhaid cyflwyno un copi electronig o ffurflen gais sydd wedi'i llenwi ac unrhyw gopïau papur o'r dogfennau ategol a ganiateir erbyn y dyddiad cau a bennir yn Adran 1 yr Hysbysiad hwn. Fel rheol ni dderbynnir ceisiadau a gyflwynir ar ôl y dyddiad a nodir. Bydd ymgeiswyr yn cael ateb awtomatig gan y blwch post uchod, yn cydnabod bod y cais wedi dod i law. Os na cheir ateb awtomatig, dylai'r ymgeisydd gysylltu ag Ofcom ar unwaith a gofyn i gal siarad ag aelod o'r tîm Trwyddedau Darlledu i weld a yw'r cais wedi cyrraedd.

5.5 O ran cyflwyno dogfennau'n electronig, dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol nad yw e-bost yn ffordd o gyfathrebu ar unwaith, yn enwedig pan fydd atodiadau mawr. Os oes gennych chi nifer o ddogfennau mawr i'w cyflwyno, efallai y bydd angen i chi eu hanfon mewn negeseuon e-bost ar wahân (neu fel ffeiliau cywasgedig). Cynghorir yr ymgeiswyr yn gryf i gyflwyno ceisiadau e-bost o leiaf 48 awr cyn y dyddiad cau, er mwyn i'r ymgeisydd allu cymryd camau ar frys os na cheir unrhyw gydnabyddiaeth gan Ofcom.

5.6 Ni chaiff yr ymgeisydd wneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r cais ar ôl y dyddiad cau heb gael cytundeb Ofcom. Os bydd angen i'r ymgeisydd wneud unrhyw ddiwygiadau oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth, yna dylid rhoi gwybod i Ofcom ar unwaith. Ni fydd Ofcom yn cytuno ar unrhyw ddiwygiad y mae'n credu a fyddai'n annheg i unrhyw ymgeisydd arall sy'n gwneud cais am drwydded radio cymunedol yn y rownd honno.

5.7 Rhaid talu'r ffi ymgeisio cyn y dyddiad cau a bennir yn Adran 1 yr Hysbysiad hwn hefyd. Caiff ymgeiswyr gyflwyno eu taliad drwy unrhyw un o'r dulliau canlynol:

5.8 Talu drwy BACS i gyfrif banc Ofcom (cod didoli: 30-97-90, rhif y cyfrif: 00782415, enw'r cyfrif: Ofcom). Cofiwch y bydd unrhyw daliadau a wneir drwy'r dull hwn yn cymryd o leiaf tri diwrnod gwaith i gyrraedd cyfrif Ofcom. Ym maes cyfeirnod mandad eich taliad, ysgrifennwch 'CR' wedi'i ddilyn gan enw cwmni'r ymgeisydd neu enw arfaethedig yr orsaf.

5.9 Talu drwy CHAPS i gyfrif banc Ofcom (yr un manylion ag uchod). Cofiwch er bod hwn yn ddull talu 'ar yr un diwrnod' dylai ymgeiswyr sy'n bwriadu cyflwyno eu taliad ar y diwrnod cau ei hun gadarnhau gyda'u banc erbyn pryd y mae'n rhaid gwneud y taliad i sicrhau ei fod yn cyrraedd Ofcom ar y diwrnod hwnnw. Ym maes cyfeirnod mandad eich taliad, ysgrifennwch 'CR' wedi'i ddilyn gan enw cwmni'r ymgeisydd neu enw arfaethedig yr orsaf.

5.10 Talu drwy siec. Rhaid gwneud sieciau'n daladwy i 'Ofcom' a'u postio i'r cyfeiriad a roddir yn 3.2 uchod. Os bydd ymgeisydd yn dymuno cyflwyno siec heb gopi papur cysylltiedig o'r cais, rhaid anfon y siec gyda nodyn sy'n rhoi enw cwmni'r ymgeisydd neu enw arfaethedig yr orsaf. Rhaid anfon unrhyw sieciau at Ofcom mewn da bryd i sicrhau y bydd yr arian wedi clirio erbyn y dyddiad cau.

5.11 Bydd methu â chydymffurfio ag unrhyw un o'r canllawiau uchod yn debyg o olygu na fydd y cais yn gymwys.

# A1. Ardaloedd y gwahoddir ceisiadau ar eu cyfer

**Mae prinder amleddau FM addas difrifol mewn sawl ardal. Ni all Ofcom warantu bod adnoddau amledd addas ar gael i ddiwallu anghenion unrhyw grŵp o ymgeiswyr. Dylai darpar ymgeiswyr nodi mai nhw sy'n atebol am unrhyw risg sydd ynghlwm wrth eu cais.**

Mae rhai o'r llefydd a nodwyd yn cwmpasu ardal eang (mae rhai o ganlyniad i fwy nag un datganiad o ddiddordeb mewn ardaloedd cyfagos, er enghraifft). Gellir ystyried ceisiadau ar gyfer lleoliad neu leoliadau yn yr ardal a ddisgrifiwyd, er y caiff ymgeiswyr eu hannog i ddarllen ein polisi darpariaeth a chynllunio ar gyfer radio analog i gael arweiniad ar bolisïau ardaloedd darpariaeth (adran 4). (Yn gyffredinol, mae mwy o gyfle i gael ardaloedd darlledu mwy mewn lleoliadau gwledig, lle gall mwy o amleddau FM addas fod ar gael.**)**

| **Disgrifiad o'r ardal (cymerwyd o fwy nag un datganiad o ddiddordeb)** | **Gwlad** |
|---|---|
| Albrighton a Cosford (Swydd Amwythig) | Lloegr |
| Amersham a Chesham a'r ardal gyfagos (Swydd Buckingham) | Lloegr |
| Bwrdeistref Scarborough (Gogledd Swydd Efrog) | Lloegr |
| Burghclere (Hampshire) | Lloegr |
| Caerliwelydd (Cumbria) | Lloegr |
| Chesterfield (Gogledd Swydd Derby) | Lloegr |
| Maryport, Workington, Whitehaven, Egremont (Cumbria) | Lloegr |
| Clowne, Bolsover a Barlborough (Swydd Derby) | Lloegr |
| Dover (Caint) | Lloegr |
| Durham (Swydd Durham) | Lloegr |
| Eastleigh, Hampshire | Lloegr |
| Faversham (Caint) | Lloegr |
| Ferndown, Wimborne Minster, Corfe Mullen a Holt (Dorset) | Lloegr |
| Hastings (Dwyrain Sussex) | Lloegr |
| Grimsby, Mablethorpe, Trusthorpe, Sutton-on-Sea, Chapel St Leonards, Ingoldmells, Skegness (Swydd Lincoln) | Lloegr |
| Lowestoft a Gogledd-Ddwyrain Suffolk | Lloegr |
| Lutterworth (Swydd Gaerlŷr) | Lloegr |
| Melksham (Wiltshire) | Lloegr |
| Gogledd Gwlad yr Haf | Lloegr |
| Northwich, Middlewich a Winsford (canol Swydd Gaer) | Lloegr |
| Portishead (Gwlad yr Haf) | Lloegr |
| Ryedale (Gogledd Swydd Efrog) | Lloegr |
| Shaftesbury a Gillingham (Dorset) a Semley (Wiltshire) | Lloegr |
| Rhanbarth De Bucks (Beaconsfield, Denham, Gerrards Cross, Iver, Stoke Poges, Chalfont St Giles a Chalfont St Peter) | Lloegr |

| | |
|---|---|
| De-ddwyrain Lloegr/Bwrdeistref Croydon | Lloegr |
| Thornbury a'r fro (Swydd Gaerloyw) | Lloegr |
| Tonbridge a Tunbridge Wells (Caint) | Lloegr |
| Wallingford (Swydd Rydychen) | Lloegr |
| Wigan (Manceinion Fwyaf) | Lloegr |
| | |
| Ayr (De Swydd Ayr) | Yr Alban |
| Dundee | Yr Alban |
| Dunfermline (Fife) | Yr Alban |
| Caeredin | Yr Alban |
| Hamilton, Larkhall, Stonehouse (De Swydd Lanark) | Yr Alban |
| Swydd Kinross | Yr Alban |
| Livingston, Bathgate a Linlithgow (Gorllewin Lothian) | Yr Alban |
| Shotts (Gogledd Swydd Lanark) | Yr Alban |
| | |
| Ballymena (Sir Antrim) | Gogledd Iwerddon |
| Enniskillen (Sir Fermanagh) | Gogledd Iwerddon |
| Newtownabbey (Sir Antrim) | Gogledd Iwerddon |
| Omagh (Sir Tyrone) | Gogledd Iwerddon |
| | |
| Merthyr Tudful (Morgannwg Ganol) | Cymru |
| Lleoliadau yn Nyffryn Clwyd; Bae Cinmel, Abergele | Cymru |

# A2. Gwasanaethau radio masnachol ar raddfa fach

Rhestrir isod y gwasanaethau radio masnachol lleol yn y DU ag ardal ddarlledu fesuradwy sy'n cynnwys poblogaeth o 150,000 o oedolion (15 oed a hŷn) neu lai, ac nad yw eu trwyddedau yn cynnwys cytundeb ar gyfer stiwdios sy'n rhannu lleoliad. Ewch i adran 3 i gael rhagor o wybodaeth am sut gallai gorgyffwrdd ag unrhyw un o'r gorsafoedd hyn effeithio ar drwydded gwasanaeth radio cymunedol.

| **Ardal y drwydded** | **Enw'r orsaf** |
|---|---|
| Arbroath | RNA FM |
| Aylesbury | Mix 96 |
| Borders | Radio Borders |
| Buxton | High Peak Radio/Ashbourne Radio |
| Caer | Dee 106.3 |
| Cheltenham | The Breeze |
| Dumfries a Galloway | Westsound FM |
| Caerwysg | Radio Exe |
| Inverurie | NECR |
| Ynys Wyth | Isle of Wight Radio |
| Kendal a Windermere | Smooth Radio |
| King's Lynn | KLFM |
| Kintyre, Islay a Jura | Argyll FM |
| Llwydlo a De Shropshire | Sunshine Radio |
| Mansfield | Mansfield 103.2 |
| Oban | Oban FM |
| Peterhead a Fraserburgh | Waves Radio Peterhead |
| Rutland | Rutland Radio |
| Caersallog | Spire FM |
| Shetland | SIBC |
| Skye a Lochalsh | Cuillin FM |
| Warwick | Touch FM |
| Ynysoedd y Gorllewin | Isles FM |
| Weymouth a Dorchester | Wessex FM |

Gallwch weld a yw'r ardal rydych chi am ddarlledu ynddi yn dod o dan Ardal Darpariaeth Fesuradwy unrhyw un o'r gwasanaethau hyn drwy edrych ar y mapiau darpariaeth radio masnachol ar ein gwefan.

Gallai'r rhestr hon newid pe bai Ofcom yn cytuno i wneud cais i newid Fformat gorsaf mewn perthynas â threfniadau stiwdios sy'n rhannu lleoliad.